OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2014 Rhif 1839 (Cy. 191)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 42, Cyfnewidfa Earlswood i Gyffordd 43, Cyfnewidfa Llandarcy) a Chefnffordd yr A48 (Cyfnewidfa Earlswood i Gylchfan Sunnycroft), Castell-nedd Port Talbot (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2014

Gwnaed	*14 Gorffennaf 2014*
Yn dod i rym	*21 Gorffennaf 2014*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Draffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), a Chefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A48) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r draffordd a'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arnynt neu'n agos iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Gorffennaf 2014. Ei enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 42, Cyfnewidfa Earlswood i Gyffordd 43, Cyfnewidfa Llandarcy) a Chefnffordd yr A48 (Cyfnewidfa Earlswood i Gylchfan Sunnycroft), Castell-nedd Port Talbot (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2014.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn; cerbydau sy'n mynd i Ystad Ddiwydiannol Marina Monkstone pan ganiateir iddynt wneud hynny a phreswylwyr sy'n

mynd i eiddo o'r gefnffordd pan ganiateir iddynt wneud hynny;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 21 Gorffennaf 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r draffordd" ("*the lengths of the motorway*") yw'r darnau o Draffordd yr M4 rhwng Cyffordd 42, Cyfnewidfa Earlswood a Chyffordd 43, Cyfnewidfa Llandarcy ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o Gefnffordd yr A48 rhwng Cyfnewidfa Earlswood a Chylchfan Sunnycroft ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a bennir yn Atodlenni 2 a 3 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, droi i'r dde ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

6. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 14 Gorffennaf 2014

R Morgan
R MORGAN
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
(2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

GWAHARDD POB CERBYD AR DRAFFORDD YR M4

i. Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 43, Llandarcy.

ii. Y darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 42, Earlswood.

ATODLEN 2

GWAHARDD POB CERBYD AR GEFNFFORDD YR A48

i. Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Llansawel hyd at ei chyffordd â Chefnffordd yr A483.

ii. Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â ffordd ymadael tua'r dwyrain yr M4 hyd at ei chyffordd â Chylchfan Llansawel.

iii. Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Sunnycroft hyd at ei chyffordd â Chylchfan Llansawel.

iv. Y darn hwnnw o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Llansawel hyd at ei chyffordd ag Old Road.

v. Y darn hwnnw o'r gefnffordd wrth ran dde-ddwyreiniol Cylchfan Llansawel rhwng cyffyrdd y gerbytffordd tua'r dwyrain a'r gerbytffordd tua'r gorllewin.

vi. Y darn hwnnw o'r gefnffordd wrth ran ogledd-orllewinol Cylchfan Llansawel rhwng cyffyrdd y gerbytffordd tua'r dwyrain a'r gerbytffordd tua'r gorllewin.

ATODLEN 3

GWAHARDD TROI I'R DDE AR GEFNFFORDD YR A48

Dim troi i'r dde i gerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain (o ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd 42 yr M4) i gerbytffordd tua'r gorllewin yr A483 (ac eithrio mynediad i Uned Ddiwydiannol Marina Monkstone).